OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 12

## CYMHWYSO I GAEL CYMORTH YN YSTOD Y FLWYDDYN ACADEMAIDD

### Cymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grantiau yn ystod y flwyddyn academaidd

**81.**—(1) Pan fo un o'r digwyddiadau ym mharagraff (3) yn digwydd, caiff y myfyriwr cymwys gymhwyso i gael benthyciad cynhaliaeth neu grant.

(2) Ond ni fydd swm y benthyciad neu'r grant sy'n daladwy i'r myfyriwr cymwys ond—

(a) mewn cysylltiad â'r chwarter neu'r chwarteri o'r flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar ôl i'r digwyddiad perthnasol ddigwydd, a

(b) yn daladwy, mewn perthynas â benthyciad cynhaliaeth, os yw'n chwarter y byddai'r benthyciad fel arall yn daladwy o dan reoliad 85(6) a (7) mewn cysylltiad ag ef.

(3) Y digwyddiadau yw—

(a) bod cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;

(b) bod y myfyriwr yn dod yn fyfyriwr cymwys ar y sail–

(i) bod y myfyriwr neu ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn cael ei gydnabod yn ffoadur neu'n **[**[F1]dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n**]** dod yn berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;

(ii) bod y myfyriwr yn wladolyn o wladwriaeth sy'n ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd pan fo'r myfyriwr wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs;

(iii) bod y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswylio'n barhaol;

(iv) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i weithiwr Twrcaidd;

(v) bod y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 4(1)(a) o Atodlen 2;

(vi) bod y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 81(3)(b)(i) wedi eu mewnosod (30.7.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/814), rhlau. 1(2), **14**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 81 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/07/2018. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.